

Cylch Gorchwyl Pwyllgor:

BWRDD MARCHNATA A DENU A DERBYN MYFYRWYR

Yn atebol i: y Senedd

Yn cyfarfod: dair gwaith y flwyddyn o leiaf

Yr adolygiad diwethaf ar y cylch gorchwyl: Tachwedd 2022; i'w adolygu nesaf: Medi 2023

Aelodau:

- Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu ac Addysgu (Cadeirydd)
- Cynrychiolaeth Academaidd (3 chynrychiolydd o bob Cyfadran (Israddedigion, Uwchraddedigion a myfyrwyr Rhyngwladol) ynghyd ag 1 Deon Cyswllt i'r ddarpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg)
- Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr
- Y Cofrestrydd Academaidd
- Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Gyrfaoedd
- Pennaeth Cynllunio
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth
- Pennaeth Denu Myfyrwyr ac Ehangu Cyfranogiad
- Pennaeth Denu Myfyrwyr a Datblygu Rhyngwladol
- Pennaeth Cyfryngau a Marchnata Creadigol
- Pennaeth Gweithrediadau Derbyn Myfyrwyr
- Pennaeth Marchnata Trosi Ceisiadau
- Dirprwy Gofrestrydd (Partneriaethau Academaidd)
- Llywydd Undeb y Myfyrwyr (neu un a enwebir ganddo/ganddi)

Aelodau - angen cytuno ar hyn

Cworwm: 10 aelod

Yn gweinyddu:

- Ioan Evans
- Swyddog Cangen PA y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Ysgrifennydd Cofnodion y Bwrdd Marchnata a Denu a Derbyn Myfyrwyr

Os yw'r Cadeirydd yn barnu ei bod yn briodol, gellir gwahodd swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd.

Cylch gwaith:

Mae'r Bwrdd Marchnata a Denu a Derbyn Myfyrwyr yn gyfrifol am oruchwylio ac arolygu datblygiad a gweithrediad strategaethau'r Brifysgol ar farchnata a denu a derbyn myfyrwyr, sy'n tywys y drefn o ddenu israddedigion, uwchraddedigion a ddysgir, yn fyfyrwyr cartref a rhyngwladol i'r Brifysgol. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Brifysgol yn cyflawni disgwyliadau'r Adran *Recrwtio, Derbyn ac Ehangu Mynediad* yng Nghod Ansawdd y DU.

Cylch gorchwyl:

1. Ystyried ac argymhell y dylai'r Senedd gymeradwyo'r isod:
 - a. Strategaethau'r Brifysgol ynglŷn â marchnata a denu a derbyn myfyrwyr
2. Ystyried a chael yr awdurdod i gymeradwyo'r isod ar ran y Senedd:
 - a. Newidiadau i'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd yn gysylltiedig â derbyn Israddedigion ac Uwchraddedigion a ddysgir.
3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth, a chynghori'r Senedd fel sy'n addas ynglŷn â'r:
 - a. Dangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â marchnata a denu a derbyn myfyrwyr
 - i. Targedau Denu Myfyrwyr
 - ii. Arweiniad/Awgrymiadau
 - iii. Dangosyddion Perfformiad Allweddol ceisiadau a derbyniadau
 - iv. Niferoedd a gofrestrir

- b. Datblygu ac adolygu'r holl bolisiau yn y meysydd craidd sy'n gysylltiedig â marchnata a denu a derbyn myfyrwyr.
 - c. Llwyddo i ddenu ceisiadau a chofrestriadau yn unol â strategaeth y Brifysgol.
 - d. Goruchwylio ac adolygu'r prosesau derbyn myfyrwyr.
 - e. Gwybodaeth a gyhoeddir a chyfathrebiadau â darpar-fyfyrwyr ac ymgeiswyr, yn unol â disgwyliadau'r Adran *Recrwtio, Derbyn ac Ehangu Mynediad* yng Nghod Ansawdd y DU.
 - f. Arolygu a goruchwylio perfformiad y Brifysgol yng nghyswllt ehangu cyfranogiad a chynhwysiant cymdeithasol.
 - g. Sefydlu a lledaenu arfer da yng nghyswllt gweithgareddau marchnata, denu myfyrwyr, derbyn myfyrwyr, ac ehangu mynediad.
-

Gweithredu

Gall y pwyllgor ystyried materion a gyfeiriwyd ato gan y Bwrdd Academaidd, Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol, neu Bwyllgorau Materion Academaidd y Cyfadrannau.